

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Chwefror 24^{ain}, 2021 am 6.30 y.h.

Presennol

Cynghorwyr

R. A. Davies

Mrs S. E. Thomas

P.H. Roberts

W.D. Evans

I. Rh. Llewelyn

Mrs Ll. Hindley

Mrs K.D. L. Davies

Mrs Ll. Latham

Mrs A. Evans

Mrs C. Thomas

B. Rees

E.W. Nicholas

C. J Harris

Mrs J.E Collins

A.W. Jones

S. J. Roberts

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd D. Nicholas

Hefyd yn bresennol, fel aelodau'r cyhoedd, oedd y Cynghorwyr Sir D Thomas a R. James.

843.

DATGANIADAU O FUDDIANT

Roedd y Cynghorydd P. H Roberts wedi datgan buddiant yng Nghofnod 845(1) gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Sirol y Blaenau.

Roedd y Cynghorydd A.W. Jones wedi datgan buddiant yng Nghofnod 845(1) gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Sirol Llandybïe

Roedd y Cynghorydd R. A Davies wedi datgan buddiant yng Nghofnod 845(1) gan ei fod yn Is-Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Sirol Llandybïe.

844.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 27^{ain}, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ionawr 27^{ain}, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 3^{ydd}, 2021

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd ar Chwefror 3^{ydd}, 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd yna unrhyw fater i'w godi; nid oedd, felly **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgorau.

845.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Materion yn codi o'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Ionawr 27^{ain}, 2021.

1) Cofnod rhif 823 – Y cynnig i adolygu addysg ysgol gynradd yn ysgolion cynradd Llandybïe a'r Blaenau

Roedd y cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn hyd at Fawrth 1^{af}, 2021.

Roedd y Cynghorydd Mrs S. E Thomas wedi sôn am ei hawydd i weld ysgolion modern, sy'n ateb y gofyn i blant yr ardal, yn debyg i'r ysgolion hynny sydd ar gael ym Mhenygroes a Saron. Dywedodd bod y ddwy ysgol yn annïogel i'w disgyblion, ac roedd hi'n grac gyda'r blaid Lafur am geisio atal y broses.

Roedd y Cynghorydd A.W Jones, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandybïe, wedi hysbysu'r Aelodau bod Ysgol Gynradd Sirol Llandybïe yn darparu amgylchedd ddiogel i'r plant, a bod datganiad y Cynghorydd Thomas yn ffeithiol anghywir. Roedd corff llywodraethol Ysgol Llandybïe wedi bod yn trafod yr opsiynau am ysgol newydd am flynyddoedd lawer, ac roedd wedi cwestiynu pam nad oedd llywodraethwyr Ysgol y Blaenau yn ymwybodol o'r cynlluniau. Roedd hefyd am gofnodi ei fod wedi derbyn llythyr oddiwrth breswylwydd lleol, yn gwrthwynebu'r cynigion newydd.

Roedd y Cadeirydd wedi dweud ei fod yn gobeithio na fyddai'r mater, o ran y Cyngor Cymuned, yn troi'n fater gwleidyddol.

Roedd y Cynghorydd P. H. Roberts wedi ailadrodd ei bryderon bod yr ymgynghoriad, o anghenrhaidd, wedi bod yn un rhithiol ac, yn ddelfrydol byddai wedi bod yn well oedi'r mater fel bod y gymuned wedi gallu dod at ei gilydd i drafod yr opsiynau sydd ar gael. Hysbysodd yr Aelodau bod yr holl rhieni wedi cael gwybod cyn gynted ag roedd corff llywodraethu Ysgol Gynradd Sirol y Blaenau wedi dod yn ymwybodol o'r cynigion.

2) Cofnod rhif 824 (i) – Ffens Clwb Rygbi Penygroes

Roedd y Cynghorydd P. H. Roberts wedi cwrdd â Chadeirydd Clwb Rygbi Penygroes i drafod opsiwn hybrid pellach a fyddai'n bodloni'r ddwy ochr. Daethpwyd i gytundeb i gyfyngu uchder y ffens i 1.2 metr ar hyd ei chanol, ond bod yr ochrau ger y ffiniau yn derbyn ffens 2 fetr o uchder fel bod modd gosod gatiau yno.

Penderfynwyd cefnogi'r opsiwn hwn gyda grant o £6434.14 gyda'r holl feini prawf eraill o ran cefnogaeth wedi'u diwallu gan Glwb Rygbi Penygroes.

Mynegwyd consyrn ynghylch cyflwr llif oleuadau y parc, goleuadau sydd ym mherchnogaeth y clwb rygbi. Cytunwyd bod y Clerc yn trafod y mater gyda'r swyddogion ac yn adrodd yn ôl ynghylch hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

GOHEBIAETH

846.

Adroddiadau'r Heddlu

Adroddiadau trosedd ar gyfer mis Ionawr 2021

Llandybïe

Bwrgleriaeth – 1

Difrod Troseddol – 1

Difrod Troseddol i Gerbyd – 1

Ymosod – 1

Lladrad – 2

Cadeirydd

Troseddau yn ymwneud â chyffuriau – 2
Ci peryglus – 1
Aflonyddu – 2
Stelcio – 1

Saron, gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc

Bwrgleriaeth – 2
Ymosod – 2
Lladrad – 1
Cyfathrebu Maleisus - 1
Aflonyddu – 5
Tanau Bwriadol -1
Stelcio – 1
Lladrata Beic – 1
Blacmel – 1

Penygroes

Ymosod – 1
Cyfathrebu Maleisus – 4
Mynd â cherbyd heb ganiatâd - 1
Stelcio – 1
Tanau Bwriadol - 1

847.

Derbyniwyd yr eitemau canlynol o ohebiaeth, ac fe'u hanfonwyd at yr Aelodau cyn y cyfarfod:

- a) Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Caerfyrddin
- b) Cynllun i Gymru i Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon
- c) Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth.

848.

Terfyn cyflymdra newydd 20 mya yn y Blaenau

Derbyniwyd hysbyseb cyhoeddus oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn hysbysu'r bwriad o ddiwygio'r terfyn cyflymdra ar y B4556 yn y Blaenau o bwynt 66 metr i'r dwyrain o'i gyffordd gyda Heol Pantyblodau am bellter o 155 metr mewn cyfeiriad gorllewinol, ac ar hyd Heol Pantyblodau yn ei chyfanrwydd. Roedd yr hysbyseb wedi'i hanfon at yr Aelodau fel eu bod yn gallu datgan unrhyw wrthwynebiad ynghylch y mater i Gyngor Sir Caerfyrddin erbyn Chwefror 17^{eg}, 2021.

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun.

849.

Cau ffyrdd dros-dro

Bydd Heol Blaenau, Llandybïe, ar gau dros-dro ar ddydd Llun, Mai 3^{ydd}, 2021, a'r C2137 yn Llandyfan ar gau dros-dro ar ddydd Mercher, Mai 5^{ed}, 2021 rhwng 9.00 yb a chanol nos fel bod BT Openreach yn gallu amnewid offer sydd wedi'i ddifrodi. Bydd traffig yn cael ei ddargyfeirio ar hyd llwybrau teithio amgen.

850.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

1) Llwybr Troed rhif 51/86 yn Nerwydd

Roedd y Clerc wedi derbyn ychydig gwynion gan gerddwyr bod gordyfiant mieri ar draws y gatiau i'r llwybr troed byr yma yn atal mynediad at y llwybr. Roedd y Clerc wedi hysbysu'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghyngor Sir Caerfyrddin; roeddent wedi cydnabod bod y llwybr troed yn dal i fodoli, a byddant yn mynd i'r afael â'r mater pan fydd eu hadnoddau yn caniatáu iddynt wneud hynny.

b) Parciau

1) Contractau newydd i'w dyfarnu

Derbyniwyd dyfynbrisiau am y contractau canlynol:

a) Casglu sbwriel / Torri glaswellt / Clirio dail / Cynnal a chadw perthi / Cynnal a chadw'r caeau pêl-droed / Gosod chwynladdwr

Cyflwynwyd ond dau ddyfynbris.

Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr ymgeisydd llwyddiannus o ran pris ac ansawdd gwasanaeth, ac am godi pris o £19064.50 am y flwyddyn 2021/2022. Bydd y contract am gyfnod o 12 mis gyda'r opsiwn i ymestyn y cytundeb am 12 mis arall os yw'r ddwy ochr yn gytûn.

Er gwaetha'r ffaith taw dim ond dau ddyfynbrisiau gafodd eu cyflwyno, **penderfynodd** yr Aelodau gymeradwyo dyfarnu'r contract. Roedd y Cadeirydd wedi hysbysu'r Aelodau bod y berthynas waith rhwng y ddwy ochr dros y 3 blynedd ddiwethaf wedi bod yn ardderchog, ac yn gobeithio y byddai hyn yn parhau o dan y contract newydd.

b) Paratoi a chynnal a chadw Grîn Bowllo Llandybïe.

Oherwydd natur arbenigol y gwaith sydd ei angen, dim ond un dyfynbris a dderbyniwyd, a hynny oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin am bris o £6860.50 am y flwyddyn 2021/2022. Bydd y contract yn parhau am 24 mis, gyda'r opsiwn i'w ymestyn am 12 mis arall os yw'r ddwy ochr yn gytûn.

Roedd yr Aelodau wedi **penderfynu** cymeradwyo'r contract gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

2) Mannau Chwarae Cyhoeddus Di-Fwg

Bydd y ddeddfwriaeth newydd, sy'n weithredol o Fawrth 1^{af}, 2021 yn golygu bod mannau chwarae cyhoeddus yn ardaloedd cwbl ddi-fwg. Gan fod y Cyngor yn gyfrifol am unarddeg maes chwarae, mae eisoes wedi gosod arwyddion yn cynnwys graffigyn 'dim ysmegu' ym mhob un o'r mannau chwarae lle y lleolir offer chwarae i blant. Mae hyn yn dderbyniol oherwydd bod y mannau chwarae o fewn ffiniau a ddynodir yn gwbl glir.

Mae'r arwyddion hefyd wedi'u gosod yn yr Ardaloedd Chwaraeon Aml-Ddefnydd (MUGA).

Mae offer chwarae ym mharciau Penygroes a Chapel Hendre wedi'i leoli y tu allan i'r ardal chwarae cyffredinol i blant, ac mae'r eitemau hynny wedi'u dynodi yn eitemau sydd 'mewn ardal chwarae cyhoeddus heb ffin'. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, bydd angen gosod arwydd ar bob eitem o offer er mwyn hysbysu aelodau'r cyhoedd bod 'Ysmegu o fewn 5 metr o'r offer chwarae yma yn anghyfreithlon'.

Penygroes – 4 eitem o offer a llwybr beicio
Chapel Hendre – parc sglefrfyddio

Bydd hefyd rhaid gosod arwyddion priodol ger pob prif fynedfa; mae gan Benygroes, Gorsddu a Chapel Hendre ddwy gât fynediad a fydd angen arwyddion.

Penderfynodd yr Aelodau fwrw ymlaen i archebu a gosod yr arwyddion priodol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

3) Dywedodd y Cyngorydd P. H. Roberts bod angen asesu, at ddibenion diogelwch, piler concrit sy'n agos i'r pafiliwn. Byddai hyn yn cael ei adolygu fel rhan o arolygiadau arferol y parciau.

c) Heol Cae Ysgubor

Bydd y datblygiad newydd o 28 tŷ annedd preswyl ger Tŷ Dyffryn, Saron yn cael yr enw Cae Ysgubor, gan taw dyma oedd yr enw gwreiddiol ar y tir.

d) Gwasanaethu Cloc Cilyrychen

Roedd gwasanaeth blynyddol y cloc a oedd yn cynnwys cyflenwi a gosod batri newydd, wedi'i gynnal ar Chwefror 9^{fed}, 2021 gan Smith of Derby am bris o £ 388.80.

Penderfynodd yr Aelodau dalu'r anfoneb.

dd) Adnewyddu Yswiriant – yn ddyledus ar Ebrill 1^{af} 2021

Roedd y Clerc wedi gwahodd dyfynbrisiau adnewyddu oddiwrth dri chwmni yswiriant. Derbyniwyd fanylion oddiwrth y broceriaid arbenigol Came and Company, ac roedd hyn yn cynnwys 3 dyfynbris oddiwrth Pen Underwriting Limited via AXA, Hiscox ac Ecclesiastical.

Pen Underwriting Ltd via AXA – £2355.59

Hicox - £3024.44

Ecclesiastical – £3035.17

Y premiwm ar gyfer 2020/21 oedd £2191.83

Mae angen ychwanegu ffi gweinyddu o £50 i bob polisi ac mae'r dyfynbrisiau yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant.

Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant gyda Pen Underwriting via AXA, ar gytundeb cyfreithiol tair-blynedd am breimiwm o £2355.59, ynghyd â'r ffi gweinyddu o £50.

851.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Derbyniwyd y biliau canlynol yn ystod mis Chwefror 2021 a, gyda chydysniad y Cadeirydd, cafwyd eu talu:

5425	Dŵr Cymru	Cyfleusterau	Cyhoeddus	£124.68
		Llandybïe	22/7/20 – 26/1/21	
5426	Neuadd Plwyf	Rhent y swyddfa a'r siambr		£650.00
	yr Eglwys Llandybïe	1/12/20 – 31/5/21		
5440	Dŵr Cymru	Dŵr Cymru – Pafliwn Llandybïe		£197.71
		18/7/20 – 22/1/21		
5447	EDF	Parc Penygroes – Ionawr 2021		£11.10

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:-

5427 to	Grantiau a ddyfarnwyd	Gweler Cofnodion y Pwyllgor	
5436		Cyllid a gynhaliwyd ar Chwefror	
5438		3 ^{ydd} 2021	
5444			
5439	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£238.65
5441	S Griffith	Cyflog, gan gynnwys lwfans	£2296.43
		defnydd tŷ fel swyddfa, mis	
		Chwefror 2021	
5442	R Thomas	Cyflog, gan gynnwys lwfans	£661.06
		defnydd tŷ fel swyddfa, mis	
		Chwefror 2021	
5443	Cyllid y Wlad	Chwefror 2021	£944.06
5445	Morgan and Morgan	Inc i argraffydd y Swyddog	£22.40
		Gweinyddol	
5446	Morgan and Morgan	Inc i argraffydd y Clerc	£68.76
5448	hsl Compliance Ltd	Hylendid dŵr yn y pafiliynau a'r	£221.54
		cyfleusterau cyhoeddus –	
		Chwefror 2021	
5449	Smith of <u>Derby</u>	Gwasanaeth blyneddol Cloc	£388.80
		Cilyrychen	

Cadeirydd

5450	Morgan and Morgan	Gwerthusiad gweithdy o'r argraffydd	£24.00
5453	Jeff's Tipper Hire	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus	£784.00
5454	Morgan and Morgan	Lletya parth blynnyddol	£88.80
5455	Morgan and Morgan	Inc i'r argraffydd	£50.09

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cymeradwyo y taliadau hyn, ynghyd â chymeradwyo, yn ôl-weithredol, y rhai a gytunwyd arnynt gan y Cadeirydd

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol - Ebrill 1/4/20 i 31/01/21

2020/21 Amcangyfrif £	Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn £	
180,000	180,000	Praesept
150	54	Llog: Lloyds
400	517	Llog:cyfrifon buddsoddi
3000	3,000	Hawliau Tramwy
		Grant cynnal a
	726	chadw
4700	0	Cytundebau llogi
188,250	184,297	
45,889	41,129	Staffio
17,650	10,148	Adeiladau
		Gwasanaethau
4,750	3,964	Swyddfa
3,100	562	Costau'r Aelodau
		Gwasanaethau a
10,000	5,292	Thanysgrifiadau
	5,920	Adran 137
}		Taliadau yn unol â phwerau
	0	eraill
		Mannau agored
	1,150	cyhoeddus
	2,470	Neuaddau pentref
	2,900	Claddfeydd
}		Hawliau Tramwy – cynnal a
	4,645	chadw
10,000		Hawliau Tramwy –
	0	gwelliannau
		Torri glaswellt/ sbwriel/
28,000	1,425	cyfleusterau
		Atgyweirio ac amnewid yn y
50,000	56,787	parciau
}		Goleuo cyhoeddus - ynni
	0	Goleuo cyhoeddus -
8,500	0	

28,000	11,887	gwelliant Datblygu Cymunedol
13,000	6,806	Cyfleusterau Cyhoeddus
236,889	155,085	
	29,212	Balans am y flwyddyn (cyfnod)
	337,001	d/y
0	366,213	c/y

356,449	Arian parod a buddsoddiadau
9,764	Dyledwyr
0	Credydwyr
366,213	

Mae'r praesept cyfredol, sef £180,000, wedi aros yn ddigynfnewid am y bedair blynedd ddiwethaf, ac mae'r tabl cymharu Band D Treth y Cyngor yn dangos bod Cyngor Cymuned Llandybïe yn cymharu yn ffafriol iawn gyda chynghorau lleol eraill.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

852.

Adroddiad ynghylch arian Adran 106

Nid oedd unrhyw beth i'w gofnodi.

853.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Roedd y Clerc a'r Cynghorydd I. Rh. Llewelyn wedi mynychu cyfarfod rhith o bwyllgor Un Llais Cymru, Ardal Sir Gaerfyrddin. Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru wedi'i thrafod, a'r effaith y mae'n debyg o'i chael ar y Cyngor. Mae'n debygol y bydd rhaid i bob cyngor lunio adroddiad blynyddol, a chynhyrchu a monitro cynlluniau hyfforddiant i gynghorwyr. Hefyd bydd y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn opsiwn i gynghorau sydd â phraesept yn uwch na £200 mil, Clerc sydd wedi'i gymhwyso i lefel CILCA ac archwiliad diamod dwy flynedd.

Roedd y Clerc hefyd wedi mynychu cyfarfod Cynghorau Mwy o Faint Un Llais Cymru.

854.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fawrth 31^{ain}, 2021.

855.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.20 y.h.